OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2010 Rhif 746 (Cy.75)

GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU

PLANT A PHOBL IFANC, CYMRU

Rheoliadau Adolygu Penderfyniadau'n Annibynnol (Mabwysiadu a Maethu) (Cymru) 2010

Gwnaed - - - -	*11 Mawrth 2010*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -	*12 Mawrth 2010*
Yn dod i rym - -	*2 Ebrill 2010*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 9, 12 a 142(5) o Ddeddf Mabwysiadu a Phlant 2002(**1**), adrannau 23(2) a (9) a 104(4) o Ddeddf Plant 1989(**2**) a pharagraff 12A o Atodlen 2 i'r Ddeddf honno ac adrannau 22(1) a 118(1) a (5) i (7) o Ddeddf Safonau Gofal 2000(**3**), yn gwneud y Rheoliadau canlynol —

RHAN 1

CYFFREDINOL

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Adolygu Penderfyniadau'n Annibynnol (Mabwysiadu a Maethu) (Cymru) 2010.

(2) Deuant i rym ar 2 Ebrill 2010.

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

Dehongli

2. Yn y Rheoliadau hyn —

(**1**) 2002 p.38. Diwygiwyd adran 12 gan adran 57 o Ddeddf Plant 2004 (p.31) a chan adran 34 o Ddeddf Plant a Phobl Ifanc 2008 (p. 23).
(**2**) 1989 p.41. Mae adran 8(3) o Ddeddf Plant a Phobl Ifanc 2008 (p.23) a pharagraff 2 o Atodlen 2 iddi yn darparu bod effaith i Ddeddf Plant 1989 fel petai paragraff 12A wedi ei fewnosod ar ol paragraph 12.
(**3**) 2000 p.14.

ystyr "adroddiad darpar fabwysiadydd" ("*prospective adopter's report*") yw adroddiad a baratowyd yn unol â rheoliad 26 o'r Rheoliadau Asiantaethau;

ystyr "ceisydd" ("*applicant*")—

(a) yn achos penderfyniad ar addasrwydd i fabwysiadu, yw darpar fabwysiadydd;

(b) yn achos penderfyniad ar ddatgelu, yw person perthnasol o fewn ystyr "relevant person" yn rheoliad 13A(7) o'r Rheoliadau Datgelu;

(c) yn achos penderfyniad ar faethu, yw person y rhoddwyd hysbysiad iddo at ddibenion rheoliad 28(6)(a) o'r Rheoliadau Maethu;

mae i "darparydd gwasanaeth maethu" ("*fostering service provider*") yr ystyr a roddir i "fostering service provider" yn rheoliad 2(1) o'r Rheoliadau Maethu;

ystyr "Deddf 1989" ("*the 1989 Act*") yw Deddf Plant 1989;

ystyr "Deddf 2002" ("*the 2002 Act*") yw Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002;

ystyr "diwrnod gwaith" ("*working day*") yw diwrnod nad yw'n ddydd Sadwrn, yn ddydd Sul, yn Ddydd Nadolig, yn Ddydd Gwener y Groglith nac yn wyl y banc o fewn ystyr Deddf Bancio a Thrafodion Ariannol 1971(**4**);

ystyr "gweithiwr cymdeithasol" ("*social worker*") yw person a gofrestrwyd yn weithiwr cymdeithasol ar gofrestr a gynhelir gan y Cyngor Gofal Cymdeithasol Cyffredinol neu Gyngor Gofal Cymru o dan adran 56 o Ddeddf Safonau Gofal 2000 neu ar gofrestr gyfatebol a gynhelir o dan gyfraith yr Alban neu Ogledd Iwerddon;

ystyr "panel mabwysiadu" ("*adoption panel*") yw panel a gyfansoddwyd yn unol â rheoliad 3 o'r Rheoliadau Asiantaethau;

ystyr "panel" ("*panel*") yw panel a gyfansoddwyd yn unol â rheoliad 6, 7 neu 8, yn ôl fel y digwydd;

ystyr "panel maethu" ("*fostering panel*") yw panel a gyfansoddwyd yn unol â rheoliad 24 o'r Rheoliadau Maethu;

ystyr "penderfyniad ar addasrwydd i fabwysiadu" ("*adoption suitability determination*") yw penderfyniad cymhwysol a ddisgrifir yn rheoliad 3(a);

ystyr "penderfyniad ar ddatgelu" ("*disclosure determination*") yw penderfyniad cymhwysol a ddisgrifir yn rheoliad 13A(1) o'r Rheoliadau Datgelu(**5**);

ystyr "penderfyniad ar faethu" ("*fostering determination*") yw penderfyniad cymhwysol o ddisgrifiad a ragnodir yn rheoliad 4;

ystyr "penderfyniad cymhwysol" ("*qualifying determination*") yw penderfyniad a ddisgrifir yn rheoliadau 3 a 4;

ystyr "Rheoliadau Adolygu Annibynnol 2006" ("*the Independent Review Regulations 2006*") yw Rheoliadau Adolygu Penderfyniadau'n Annibynnol (Mabwysiadu) (Cymru) 2006(**6**);

ystyr "y Rheoliadau Asiantaethau" ("*the Agencies Regulation*") yw Rheoliadau Asiantaethau Mabwysiadu (Cymru) 2005(**7**);

(**4**) 1971 p.80.
(**5**) Mae rheoliad 13A (1) o'r Rheoliadau Datgelu yn pennu'r penderfyniadau canlynol gan yr asiantaeth fabwysiadu briodol mewn perthynas â chais o dan adran 61 o Ddeddf 2002: (a) peidio â bwrw ymlaen â chais gan unrhyw berson am ddatgelu gwybodaeth a ddiogelir; (b) datgelu gwybodaeth i geisydd yngl?n â pherson pan fo'r person hwnnw wedi gwrthod cydsynio i ddatgelu'r wybodaeth; ac (c) peidio â datgelu gwybodaeth am berson i'r ceisydd pan fo'r person hwnnw wedi rhoi ei gydsyniad i ddatgelu'r wybodaeth.
(**6**) O.S.2006/3100 (Cy.284).
(**7**) O.S.2005/1313 (Cy.95) fel y'i diwygiwyd gan O.S.2006/362, O.S. 2009/1891 ac O.S.2009/2541 (Cy.205).

ystyr "y Rheoliadau Datgelu" ("*the Disclosure Regulations*") yw Rheoliadau Mynediad i Wybodaeth (Mabwysiadu Ôl-gychwyn) (Cymru) 2005(**8**);

ystyr "y Rheoliadau Maethu" ("*the Fostering Regulations*") yw Rheoliadau Gwasanaethau Maethu (Cymru) 2003(**9**);

mae "y rhestr ganolog" ("*the central list*") i'w dehongli yn unol â rheoliad 5;

mae i "rhiant maeth" ("*foster parent*") yr ystyr a roddir i "foster parent" yn rheoliad 2(1) o'r Rheoliadau Maethu; ac

ystyr "sefydliad" ("*organisation*") yw asiantaeth fabwysiadu neu ddarparydd gwasanaeth maethu, yn ôl fel y digwydd.

Penderfyniad cymhwysol — disgrifiad penodedig at ddibenion adran 12(2) o Ddeddf 2002

3. At ddibenion adran 12(2) o'r Ddeddf, penderfyniad cymhwysol yw —

(a) penderfyniad a wnaed gan asiantaeth fabwysiadu yn unol â'r Rheoliadau Asiantaethau fel a ganlyn —

(i) pan, yn unol â rheoliad 28(4) o'r Rheoliadau Asiantaethau, nad yw'r asiantaeth yn bwriadu cymeradwyo darpar fabwysiadydd fel un sy'n addas i fod yn rhiant mabwysiadol,

(ii) pan fo'r asiantaeth o'r farn nad yw darpar fabwysiadydd yn addas mwyach i fod yn rhiant mabwysiadol yn dilyn adolygiad o dan reoliad 30 o'r Rheoliadau Asiantaethau; neu

(b) penderfyniad a ddisgrifir yn rheoliad 13A(1) o'r Rheoliadau Datgelu.

Penderfyniad cymhwysol — disgrifiadau rhagnodedig at ddibenion paragraff 12A(2)(b) o Atodlen 2 i Ddeddf 1989

4. At ddibenion paragraff 12A(2)(b) o Atodlen 2 i Ddeddf 1989, y disgrifiadau o benderfyniadau a ragnodir yw'r canlynol —

(a) penderfyniad (ac eithrio penderfyniad a wnaed yn unol â rheoliad 27(6) o'r Rheoliadau Maethu) bod y darparydd gwasanaeth maethu yn bwriadu peidio â chymeradwyo person fel un sy'n addas i fod yn rhiant maeth yn unol â rheoliad 28(6) o'r Rheoliadau Maethu, a

(b) penderfyniad (ac eithrio penderfyniad a wnaed yn unol â rheoliad 27(6) o'r Rheoliadau Maethu) bod y darparydd gwasanaeth maethu yn bwriadu terfynu, neu adolygu telerau, cymeradwyaeth person fel un sy'n addas i weithredu fel rhiant maeth yn unol â rheoliad 29(7) o'r Rheoliadau Maethu, pan roddir hysbysiad o'r penderfyniad ar neu ar ôl 2 Ebrill 2010.

(**8**) O.S. 2005/2689 (Cy.189) fel y'i diwygiwyd gan O.S.2006/3100 (Cy.284) ac O.S.2009/1892.
(**9**) O.S. 2003/237 (Cy.35) fel y'i diwygiwyd gan O.S.2003/891 (Cy.116), O.S.2004/1016 (Cy.113), O.S.2005/3302 (Cy.256), O.S.2006/878 (Cy.83), O.S.2006/3251 (Cy.295) ac O.S.2009/2541 (Cy.205).

RHAN 2

PANELAU

Cyfansoddiad panelau

5.—(1) Rhaid i Weinidogion Cymru, ar ôl cael cais a wnaed gan geisydd yn unol â rheoliad 19, gyfansoddi panel yn unol â rheoliad 6, 7 neu 8, yn ôl fel y digwydd, at y diben o adolygu'r penderfyniad cymhwysol.

(2) Rhaid dewis aelodau'r panel oddi ar restr o bersonau (y cyfeirir ati yn y Rheoliadau hyn fel "y rhestr ganolog") a gedwir gan Weinidogion Cymru, o bersonau a ystyrir gan Weinidogion Cymru yn addas, yn rhinwedd eu sgiliau, cymwysterau neu brofiad, i fod yn aelodau o banel.

(3) Rhaid i aelodau o'r rhestr ganolog gynnwys —

(a) gweithwyr cymdeithasol sydd â thair blynedd, o leiaf, o brofiad, ar ôl cymhwyso, o waith mabwysiadu a lleoli mewn teuluoedd;

(b) gweithwyr cymdeithasol sydd â thair blynedd, o leiaf, o brofiad ar ôl cymhwyso, o waith cymdeithasol ynglŷn â gofal plant, gan gynnwys profiad uniongyrchol o waith maethu;

(c) ymarferwyr meddygol cofrestredig; ac

(ch) personau eraill a ystyrir gan Weinidogion Cymru yn addas i fod yn aelodau o banel, gan gynnwys, pan fo'n rhesymol ymarferol, personau sydd â phrofiad personol o fabwysiadu, a phersonau sydd, neu a fu o fewn y ddwy flynedd flaenorol, yn rhiant maeth awdurdod lleol.

Aelodaeth panel ar gyfer adolygu penderfyniad ar addasrwydd i fabwysiadu

6. Pan fo'r penderfyniad cymhwysol a adolygir yn benderfyniad ar addasrwydd i fabwysiadu, y nifer o bobl y mae'n rhaid eu penodi'n aelodau o banel yw pump, a rhaid i'r panel gynnwys o leiaf —

(a) dau berson sy'n dod o fewn rheoliad 5(3)(a);

(b) un person sy'n dod o fewn rheoliad 5(3)(c); ac

(c) dau berson arall o'r rhestr ganolog, gan gynnwys pan fo'n rhesymol ymarferol, o leiaf un person sydd â phrofiad personol o fabwysiadu.

Aelodaeth panel ar gyfer adolygu penderfyniad ar ddatgelu

7. Pan fo'r penderfyniad cymhwysol a adolygir yn benderfyniad ar ddatgelu, y nifer o bobl y mae'n rhaid eu penodi'n aelodau o banel yw pump, a rhaid i'r panel gynnwys o leiaf —

(a) dau berson sy'n dod o fewn rheoliad 5(3)(a); a

(b) tri pherson o'r rhestr ganolog.

Aelodaeth panel ar gyfer adolygu penderfyniad ar faethu

8. Pan fo'r penderfyniad cymhwysol a adolygir yn benderfyniad ar faethu, y nifer o bobl y mae'n rhaid eu penodi'n aelodau o banel yw pump, a rhaid i'r panel gynnwys o leiaf —

(a) dau berson sy'n dod o fewn rheoliad 5(3)(b); a

(b) tri pherson arall o'r rhestr ganolog, gan gynnwys pan fo'n rhesymol ymarferol, un person sydd, neu a fu yn ystod y ddwy flynedd flaenorol, yn rhiant maeth awdurdod lleol.

Cynghorwyr panelau

9.—(1) Rhaid i banel gael ei gynghori gan weithiwr cymdeithasol sydd â chymwysterau, sgiliau a phrofiad priodol.

(2) Caiff panel, os yw'r panel yn ystyried hynny'n briodol, ei gynghori gan —

(a) cynghorwr cyfreithiol sydd â gwybodaeth ac arbenigedd yn nefddwriaeth mabwysiadu a maethu;

(b) ymarferydd meddygol cofrestredig sydd ag arbenigedd perthnasol mewn gwaith mabwysiadu neu faethu, pan un bynnag sy'n briodol i'r penderfyniad cymhwysol dan ystyriaeth;

(c) unrhyw berson arall sydd, ym marn y panel, ag arbenigedd perthnasol i'r penderfyniad dan ystyriaeth.

(3) Rhaid i'r cynghorwyr panelau y cyfeirir atynt ym mharagraffau (1) a (2) fod yn aelodau o'r rhestr ganolog.

Penodi cadeirydd panel

10. Rhaid i Weinidogion Cymru benodi person yn gadeirydd panel, sydd â'r sgiliau a'r profiad angenrheidiol i gadeirio panel.

Anghymhwyso aelodau o banel

11.—(1) Rhaid peidio â phenodi person ("P") yn aelod o banel —

(a) os yw'r person hwnnw'n aelod o banel mabwysiadu, neu o banel maethu, y sefydliad a wnaeth y penderfyniad cymhwysol;

(b) pan fo'r sefydliad a wnaeth y penderfyniad cymhwysol yn awdurdod lleol, os yw P ar y pryd, neu os bu yn ystod y cyfnod o un flwyddyn cyn y dyddiad pan wnaed y penderfyniad cymhwysol —

(i) yn gyflogedig gan yr awdurdod hwnnw yn eu gwasanaethau cymdeithasol plant a theuluoedd, neu

(ii) yn aelod o'r awdurdod hwnnw;

(c) pan nad yw'r sefydliad a wnaeth y penderfyniad cymhwysol yn awdurdod lleol, os yw P, ar y pryd neu os bu yn ystod y cyfnod o un flwyddyn cyn y dyddiad pan wnaed y penderfyniad cymhwysol, yn gyflogai neu ymddiriedolwr y sefydliad hwnnw;

(ch) os yw P yn berthynas i berson sy'n dod o fewn is-baragraff (a), (b) neu (c);

(d) os yw'r sefydliad a wnaeth y penderfyniad cymhwysol wedi lleoli plentyn gyda P ar gyfer ei fabwysiadu, neu wedi lleoli plentyn gyda P fel rhiant maeth awdurdod lleol;

(e) pan fo P wedi ei fabwysiadu neu'i faethu pan oedd yn blentyn, os y sefydliad a wnaeth y penderfyniad cymhwysol oedd y sefydliad a drefnodd i fabwysiadu neu faethu P; neu

(f) os yw P yn adnabod y ceisydd yn bersonol neu yn rhinwedd ei broffesiwn.

(2) Yn y rheoliad hwn —

(a) mae "cyflogedig" ("*employee*") yn cynnwys cyflogedig pa un a dderbynnir tâl ai peidio a pha un ai o dan gontract gwasanaeth neu gontract am wasanaethau neu fel gwirfoddolwr; a

(b) mae P yn berthynas i berson arall ("A") os yw P —

(i) yn aelod o aelwyd A, neu'n briod ag A neu'n bartner sifil i A;

(ii) yn fab, merch, mam, tad, chwaer neu frawd i A; neu